
# Sut rŷn ni'n glanhau eich dŵr gwastraff

Dŵr gwastraff yw'r dŵr sy'n gadael eich tŷ chi pan fyddwch wedi cael bath neu dynnu dŵr y toiled. Mae'r dŵr hwn yn llifo i garthffos gyda dŵr glaw sy'n rhedeg oddi ar y ffyrdd ac i lawr y draeniau.



## 1 Sgrinio

Mae'r dŵr yn mynd trwy sgriniau sy'n tynnu pethau trwm fel clytiau, darnau plastig a phethau mawr eraill. Mae'r broses hon yn delio â llawer o'r stwff sy'n cael ei gario yn y dŵr.



## 2 Tanciau Cychwynnol

Mae stwff solet mân, sef 'slwtsh', yn suddo i waelod y tanc. Mae crafwyr yn sgubo'r slwtsh i ffwrdd ac yna caiff ei dynnu oddi yno a'i drin.


## 3 Awyru

Mae'r dŵr yn cael ei drin mewn un o ddau ddull, naill, ai:

**Gwelyau hidlo:** Caiff dŵr gwastraff ei chwistrellu ar wely o olosg, graean neu glincer. Mae bacteria'n byw ar wyneb y defnyddiau hidlo hyn ac, wrth i'r dŵr basio trwodd, mae'r bacteria, y ffyngau ac organebau eraill yn bwydo ar y defnydd organig yn y carthion, gan ei droi'n ddŵr, yn garbon deuocsid ac yn nitrogen. Wedyn, mae'r dŵr hwn yn symud i gam nesaf y driniaeth.

**Slwtsh actifedig:** Dyma ddull arall o drin y dŵr gwastraff (fel a welir yn y diagram). Caiff aer ei bwmpio o waelod y tanc sy'n cynnwys dŵr gwastraff a bacteria. Mae hyn yn rhoi ocsigen i'r bacteria. Yna, maen nhw'n atgynhyrchu ac yn treulio'r amhureddau sydd yn y carthion.

**A WYDDECH CHI?**
Mae rhwydwaith carthffosydd Cymru yn mesur dros 30,000km ac mae'n cario dŵr gwastraff i 833 o safleoedd trin dŵr gwastraff. Yn y gweithfeydd trin, rydym yn tynnu graean a phethau trwm a allai wneud niwed i'r amgylchedd naturiol pan aiff y dŵr yn ôl i'r afon.



## Pŵer Pŵ

Mae slwtsh yn cael ei basio trwy dreulydd ar dymheredd o 35°C. Mae'n broses barhaus ac mae'n cymryd 15-20 diwrnod. Mae'r defnydd organig yn dadelfennu yn y treulydd i gynhyrchu nwy methan a charbon deuocsid. Caiff y nwy ei losgi i gynhyrchu trydan a dyna yw Pŵer Pŵ!

## 5 Trin Slwtsh

Mae'r slwtsh sydd ar ôl wedi'r broses lanhau yn cael ei gasglu a'i drin ac weithiau mae ffermwyr yn ei ddefnyddio fel gwrtaith. Mae'r gweddill yn cael ei daflu i safleoedd tirlenwi.




## 4 Triniaeth Derfynol

Mae'r broses waelodi derfynol yn debyg i'r gwaelodi cychwynnol ond erbyn hyn mae'r dŵr yn ddigon glân i gael ei arllwys yn ôl i afonydd a'r môr. Ar rai safleoedd, rydym yn defnyddio triniaeth uwchfioled fel bod safon yr elifiant hyd yn oed yn uwch.